# Ail-ddychmygu Tŷ'r Congo/Y Sefydliad Affricanaidd



## Prosiect Paentio

Bu'r prosiect **Ailddychmygu Tŷ'r Congo/Y Sefydliad Affricanaidd** yn gweithio gyda phobl o Ogledd Cymru a Chanolbarth Affrica i adrodd stori Sefydliad Affricanaidd Bae Colwyn. Agorwyd y Sefydliad ym Mae Colwyn ym 1889 gan y Parchedig William Hughes i gynnig hyfforddiant i fyfyrwyr Du, yn bennaf o Affrica, mewn ystod o sgiliau a chrefftau. Fe gaeodd yn 1912. Aeth nifer o'r myfyrwyr hyn yn eu blaenau i astudio mewn prifysgolion ym Mhrydain, gan ddychwelyd i Affrica fel meddygon, athrawon, nyrsys a newyddiadurwyr.

Mae Mfikela Jean Samuel yn artist o Gamerŵn sy'n byw yng Ngogledd Cymru. Gyda chefnogaeth yr ymgynghorydd treftadaeth Dr Marian Gwyn a Rachel Evans o Wasanaeth Amgueddfeydd Conwy, arweiniodd brosiect gyda disgyblion Blwyddyn 8 yn Ysgol Bryn Elian i gynhyrchu paentiadau i archwilio stori'r Sefydliad Affricanaidd. Arddangoswyd y gwaith celf yn Llyfrgell Bae Colwyn ochr yn ochr â'r pastynau pren a gariwyd gan fyfyrwyr y Sefydliad Affricanaidd ar eu taith i Fae Colwyn.

"Credaf fod y prosiect hwn wedi goleuo'n fawr y plant ysgol a phawb sy'n gysylltiedig ynglŷn â rhan bwysig o hanes y rhanbarth hwn.  Fel unigolyn a dyn Du o Orllewin Affrica, rwyf wedi fy nghyffroi i fod yn rhan o'r prosiect hwn ac i ddarganfod bod hanes pobl sy'n edrych fel fi yn mynd ymhell yn ôl mewn amser ym Mae Colwyn a'r cyffiniau a'r sir ehangach." – **Mfikela Jean Samuel**




**Crëwyd 2023-2024, gyda chyfraniadau gan Wasanaeth Amgueddfeydd Conwy, Archifau Conwy, Ysgol Bryn Elian, athrawes gelf Aimee Jones, a'r artist Mfikela Jean Samuel.**

Llywodraeth Cymru Welsh Government
Association of Independent Museums – Helping Heritage Organisations Prosper
Bryn Elian
Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre
Conwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council